

CONCRID PHILISTIA

YM MIS Gorffennaf euthum i Ysgol Haf y Radd Allanol, yn Aberystwyth, i draddodi darlith ac i glywed eraill. Bu'n cadeirydd, yr Hybarch D. Tecwyn Lloyd, yn traethu'n ddi-ddan ar 'Dychan, Hiwmor a Hwyl yn ein Llên'. Bu'n trafod y cerddi anfwriadol ddirgrif hynny, y cerddi concriad ar ffurf coed, poteli ac yn y blaen. A gofiwch chi'r cerddi concriad gan Meic Stephens a Gerald Morgan yn *Poetry Wales* 'slawer dydd'?

Byrhoedlog fu'r chwiw yma, mi gredaf. Nid nhw chwaith oedd yr arloeswyr: tynnodd Tec ein sylw at y bryddest goncriad 'Natur' yn *Sglodion John Ellis Williams* (1932; yn 1926 y lluniwyd y 'bryddest'). Dechreuir gyda darlun-gerdd o goeden yn nannedd corwynt gaeafol:

```

      u
      o
      g l i t
      i g n
      r i y
      r r s w
      a c
      c i
      w g n
      y l
      t a
      w
      R a
      u s
      u t
      h o
      t r
      r m
      Glaswellt glas
      yn wyb a budr.
      Y pridd oddi tanodd
      yn gors.
  
```

Yna gwelir y goeden yn yr haf:

```

      y n c a n u o
      g y l c h y d a i l
      a c y n e i b r i g a n h i
      n e f y n c a n u m w y n
      i h u a n n e f. F e g l y w
      y b a r d d l a i s a n g e l
      n e f y n c a n u i d d o
      e f a m d d y d d i
      d d o d p a n
      w e l i r
      y n t a u
      f e l y
      g o e d e n
      h o n y n
      diweddu ei oes dan y dywarchen las.
  
```

ac yn olaf, a dyfynnu J.E.W., 'Gall y bardd wneuthur darlun byw o beth mor syml â chodi'n fore'. Sylwyr ar yr athrylith yn y llinell hon:

```

      Wedi ymolechi a
      thaeluso fy human
      euthum allan o'r llofft a
      disgynnais
      yn araf
      lawr
      y grisiau
      ac yna
      i ffordd
      a mi
      allan i'r ardd flodauog.
  
```

BRUCE GRIFFITHS a rhai chwiwiau

'Ni welwyd erioed yn llenyddiaeth y byd cyfan hafal ddisgrifiad i hwn', chwedl y beirniaid Hengist, Horsa a Sebedeus. Dyry J.E.W. hefyd

enghraifft o bennill yng nghôd Morse, o bryddest y goron i 'Waed' gan Alicsandar yng Nghaergybi yn 1927. Dyma fe:

```

|| • - || • - • • | • - • - | • - • - | • - • - | • - • • || • - | • - • - |
- • - • - | • - • • || • - • | • - • • | • - • • | • - • • ||
|| - - - || • - • | • • | • • | • • | • • | • • | • • | • • | • • | • • | • • | • • | • • |
|| • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • |
|| • • • • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • | • - • |
  
```

yr hyn o'i ddehongli yw:
A bywyd newydd a ddaw
O rin ei gledd
Fe godir dyn o'r baw
I fod o'i fedd.

Gwyddai (sc. Alicsandar) y beirnedid y bryddest, pe coronid hi, a hynny gan rai na ddarllenent ddim ohoni ond y dyfyniadau byrion a geffid yn y beirniadaethau. Cyfansoddodd yntau yn y *Morse Code* . . . ai'r wisg yw prif hanfod barddoniaeth?

Onid iaith yr enaid ydyw? Ac onid oes gan yr enaid hawl i siarad yn y *Morse Code* yn ogystal ag mewn geiriau o ffurf arall?

Ystyrir mai'r bardd Guillaume Apollinaire a arloesodd gerddi concriad yn ei *Calligrammes* (1918), ond gwelais enghraifft gynharach yn *Y Tyst Dirwestol* (Mai, 1909), fel a ganlyn

The Fatal Glass.

There is a danger in the glass. Beware lest it enslave. They who have drained it fill, alas! Full many an early grave. It sparkles to allure. With its rich ruby light: Like a serpent it may sting or kill with deadly bite. It changes men to brutes. Makes the mother bow her head. Fills homes with anguish, want disputes. And takes from children bread. Then dash the glass away and from the fiery serpent flee. Drink from the pure stream day by day, And walk in truest liberty.

Pwy o'n Beirdd Cymreig a arhoga ein tudal enau a rhywbeth tebyg i'r uchod? GOL.

Hyd y gwelaf nid ymatebodd neb i her y golygydd.

Diau na ddyldid cymryd cerddi concriad o'rmod o ddirgrif. Hen lol wirion, meddwch. Ond fe all hen lol fod yn ddirgrif; maent o reidrwydd yn fyr ac yn ddiwastraff, ac maent yn frenin i sawl truth barddonol a enillodd gadair neu goron.

A SŌN am gerddi concriad, beth am y chwiw ddiweddaraf — y cerddi anweladwy, anghoncriad?

Un dda oedd hon'na gan Kate Roberts y tro diwethaf, ynté? Cystal, yn wir, fel fy mod yn ei chyflwyno ar ffurf weladwy! Dyma hi, o'r *Geninen* (rhifyn Gŵyl Ddewi, 1922):

FY IAITH, FY NGWLAD, FY NGHENEDL.

Bob tro y cofiwn Ddewi Sant Bydd gwawd mursendod ar fy mant; Dyma y dydd y cadwn wyl I gofio Dewi gyda hwyl. Molir y Cymro ar bob tant, A iaith y Sais ar enau'r plant; A chan fod rhagrith o bob tu, 'Rwyf fi fy hun yn un o'r llu. Eto, er gwaethaf hyn i gyd, Mae Cymru'n well gen i na'r byd. Ni fyynnwn garu unrhyw wlad Yn well na gwlad fy mam a nhad. A thyma'r pam y caraf hi— Ynddi mae'r fro y'm ganed i. A charaf iaith fy annwyl wlad— Y hi yw iaith fy mam a nhad. Djoer fod ynddi ddynion gwael, Mae ynddi hefyd ddynion hael; Mae ynddi ddolydd teg a chu, Eob eilwers a phentrefi du. Mae ynddi heno lawer bardd Na welodd ond ei phethau hardd.

Ped alltud heno fawn o'm bro, Fe fyddai swyn ym mhyllau glo Y wlad roes imi'r hiraeth mud Am dan hi o wledydd byd. Hiraethwn am gael mynd i Gymru I weled dim ond simnai bygddu; Pe gwelwn drosti fwg y bwthyn Roes gysgod im' pan oeddwn blentyn.

KATE ROBERTS.

Holaf eto: ai dyma'r unig gerdd o'i hysgrifbin? A heb amau angerdd y gerdd, a gytunch mai

doeth y dewisodd ganolbwyntio ar ryddiaith?

YN YR un Ysgol Haf bu Mrs Glenda Carr yn trafod 'Casglu a chyhoeddi hen destunau yn y 18fed ganrif'; cyfeiriodd at yr anfarwol William Owen (Pughe) y geiriadurwr a geisiodd wthio orgraff newydd ar y Gymraeg, ac a lwyddodd i raddau brawychus; nid yw ei ddrwg effeithiau wedi llwyr ddiplannu hyd yn oed heddiw. Ceisiodd hefyd gyflwyno gwyddor newydd a ffantastig: dyma enghraifft, o wyneb dalen ei draethawd, *Cadwedigaeth yr Iaith Gymraeg* (neu, chwedl yntau *Cadoedigaeth yr Iaith Gymraeg*):

CADŌEDIGAETH

IAITŌ ŌYBRAEG,
 John yn *Echwaith*
 III RAN,
 MEON DU'L CRYNO, HYLŌI, A HYŌV.

Gella Gynan

"Tair fan iaith y syd: fan ddylliedig, fan ddygodedig, a fan ydwylliedig."

"IaitŌ a'pŌir dŌgŌs;
 DŌgŌs a'pŌir gŌyŌr;
 YsŌyr a'pŌir adyŌg;
 AdyŌg a'pŌir rŌmŌyŌl;
 YmŌyŌl a'pŌir deal."

LUNFAIN:
 Arddeddig (an S. Rowland, Hedd y Cled, Ffynon Mawr, Mai 1, 1922).

Digrif, ynté? Atgoffawyd fi o bennill a welais yn *Y Ford Gron* (Cyf. II, 5 Mawrth, 1932) ac a'm gogleisiodd; dan y pennawd 'Pwy ughe'r awdur?', dywedir:

'Dyma "weddi" a anfonwyd i gyfaill yn y *De o'r enw Pughe*, gan gyfaill arall o Gaernarfon:

O Ddughe, o Ddughe, ai bughe ughe Pughe
Ai yntu marw ughe?
Erglughe, O Ddughe sydd wrth y llughe,
Fy ngweddi am i Bughe gael bughe.

Maldwyn

THOMAS WYNNE

(1627 - 1692)

Crynwyr, Heddychwyr a Chyfaill William Penn
 gan Geraint H. Jenkins

Mae Darlith Flynyddol Cymdeithas Bob Owen, 1991, bellach ar gael mewn print. Fe'i cyhoeddwyd gan Bwyllgor Cymreig Cymdeithas y Cyfeillion ac mae copïau i'w cael oddi wrth

Dafydd Jones, Arlyn, Trawsfynydd
Blaenau Ffestiniog, Gwynedd
Ffôn: Trawsfynydd 322
Pris: £2.30
(£2.54 yn cynnwys cludiant)